

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU
30 TACHWEDD 2021

Cofnodion cyfarfod rhithiol Is-bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 30 Tachwedd 2021.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Tony Sharps (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Ron Davies a Ralph Small

Ymgynghorydd Cyfreithiol i'r Is-bwyllgor:

Ben Williams (Bargyfreithiwr)

Swyddogion y Cyngor:

Jacqui Dale (Swyddog Trwyddedu) a Sharon Thomas (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd)

Ar ran yr Ymgeisydd (Marstons Plc):

Michelle Hazelwood (John Gaunt & Partners, Asiant ar gyfer yr Ymgeisydd)

David Harris (Rheolwr Ardal ar gyfer Marstons)

Partion Cysylltiedig:

Martin Kirby (Swyddog Rheoli Llygredd)

Kenneth Archer (Ilefarydd ar ran preswylwyr lleol)

Arsylwyr:

Linda Leigh (Daliwr Trwydded George & Dragon)

Matt Powell (Cyfreithiwr ar gyfer y Cyngor)

1. YMDDIHEURIADAU

Dim.

2. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

3. DEDDF TRWYDDEDU 2003 – CAIS AM AMRYWIAD I DRWYDDED EIDDO

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad i ystyried a phenderfynu ar gais dan y Ddeddf Trwyddedu 2003 a gyflwynwyd gan Marstons Plc ar gyfer amrywio trwydded eiddo yn The George & Dragon, Stryd yr Eglwys y Fflint. Roedd y cais ar gyfer ychwanegu ardal allanol, yn cynnwys bar allanol ar gyfer gwerthu alcohol, at y cynllun trwyddedu yng nghefn yr eiddo. Roedd yr Ymgeisydd hefyd wedi gofyn i gael tynnu amod oddi ar y drwydded eiddo sydd eisoes yn bod. Nododd yr amod hwn, "*Ni chaniateir cerddoriaeth wedi'i chwyddo yn y man ysmegu*". Gwnaethpwyd y cais ar 6 Hydref 2021.

Fel y mae wedi'i atodi i'r adroddiad, cafwyd sylwadau gan Adran Rheoli Llygredd y Cyngor a hefyd gan saith preswilydd.

Ymatebodd Heddlu Gogledd Cymru i'r cais i amrywio ar 21 Hydref 2021 a chytunodd yr ymgeisydd ar nifer o amodau gyda hwy, yn cynnwys cadw llyfr Digwyddiadau a Gwrthodiadau; sicrhau proses lanhau lem ac ystyried diogelwch gwydrau; sicrhau bod yr ardd gwrw yn cael ei goruchwyllo bob amser; a sicrhau nad yw unrhyw synau sy'n cael eu creu yn rhy uchel.

Wedi hynny, gwnaeth yr ymgeisydd nifer o newidiadau i'r cais i gynnwys yr amodau fel y cytunwyd gyda'r Heddlu ac i gynnwys y newidiadau canlynol:

- (1) Bod darpariaeth gwerthu alcohol drwy adwerthu allanol yn dod i ben am 22:00
- (2) Bod darpariaeth adloniant rheoledig ar ffurf cerddoriaeth fyw ac wedi'i recordio allanol yn dod i ben am 21:00
- (3) Bod dim mwy na phedwar diwrnod i'r teulu / gwyliau yn cael eu cynnal yn allanol bob blwyddyn.
- (4) Bod y bar yn cael ei staffio bob amser pan fydd y bar allanol yn cael ei ddefnyddio ac nad yw unrhyw stoc yn cael ei adael pan fydd y bar yn cau.

Yn ystod y gwrandawriad, gwnaethpwyd sylwadau ar ran yr Ymgeisydd gan Michelle Hazelwood o John Gaunt & Partners. Cyflwynodd yr Ymgeisydd gyflwyniadau cyfreithiol a bwndel o ddogfennau yn cynnwys chwe rhan a ystyriwyd yn llawn gan y Pwyllgor.

Bu i'r Pwyllgor hefyd glywed gan Martyn Kirby (Swyddog Rheoli Llygredd) a Mr Ken Archer a siaradodd ar ran y preswylwyr.

Cafodd y Pwyllgor gyngor cyfreithiol gan Mr Ben Dylan Williams (Cyfreithiwr).

Pan oedd y Cadeirydd yn fodlon bod yr holl gwestiynau perthnasol wedi'u codi, cafodd pawb a oedd yn bresennol - gan eithrio'r Cadeirydd, Aelodau'r Pwyllgor, Bargyfreithiwr a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - eu tynnu o'r cyfarfod i alluogi'r Pwyllgor i ddod i benderfyniad.

Gofynnodd y Pwyllgor y cwestiwn, i'w hunain, a roddwyd yn fuddiol gan yr Ymgeisydd trwy ei gynrychiolydd, yn benodol; a oedd risg o niwsans o'r cais hwn, wedi'i seilio ar yr holl dystiolaeth a gafwyd? Roedd y Pwyllgor o'r farn bod risg clir o niwsans o'r fath wedi'i seilio ar ddefnyddio'r ardal allanol.

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod y dystiolaeth gan y preswylwyr yn gymhellol fel yr oedd un Mr Kirby, y gwnaethant nodi nad oedd wedi dod i gasgliad o ran yr ymchwiliadau parhaus eto ond wedi rhoi ei farn broffesiynol y byddai sŵn o'r fath yn hollol glywadwy i breswylwyr o ystyried eu hagosatrwydd i'r ardal allanol. Derbyniodd y Pwyllgor ei farn broffesiynol a dod i'r casgliad bod risg go iawn o niwsans o ddefnyddio'r ardaloedd allanol.

Ar ôl cadarnhau bod risg clir o niwsans sŵn o gymeradwyo'r cais, aeth y Pwyllgor ymlaen i ystyried os allant hyrwyddo'r amcanion trwyddedu drwy

addasu'r amodau ag argymhellwyd ymhellach, a/neu drwy osod amodau pellach. Ar ôl ystyried yn ofalus, teimlodd y Pwyllgor na fyddai camau o'r fath yn lleihau'r risg o niwsans yn ddigonol ac felly ni fyddai cymeradwyo'r cais gydag amodau yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, yn arbennig o ran atal niwsans i'r cyhoedd (a.4 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003).

Roedd yr aelodau'n fodlon bod angen iddynt wrthod y cais yn unol â'r gyfraith.

Wrth ddod i benderfyniad, ystyriodd y Pwyllgor bolisi trwyddedu'r Cyngor a'r Canllawiau Adran 182. Yn benodol, nododd y Pwyllgor ran 8.62-8.65 sy'n delio ag amrywiadau i gynllun / strwythur eiddo; 9.1, 9.3, 9.31-9.44; a 10.10.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn ystyried hawliau dynol y partïon ac yn rhoi ystyriaeth i gymesuredd eu hymateb.

O ystyried yr holl faterion, penderfynodd y Pwyllgor i wrthod y cais.

Gwahoddwyd y Swyddog Trwyddedu, cynrychiolwyr yr Ymgeisydd a'r partïon â chysylltiad yn ôl er mwyn ailgynnull y cyfarfod.

Darllenodd y Bargyfreithiwr y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor.

Nodwyd bod gan yr Ymgeisydd a'r partïon â chysylltiad hawl i apelio ac y byddai'n rhaid i unrhyw apel gael ei gyflwyno yn Llys yr Ynadon o fewn 21 diwrnod o ddyddiad hysbysu'r penderfyniad.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol am fynychu a dweud y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ysgrifenedig.

PENDERFYNWYD:

Bod y cais gan Marston's PLC ('yr Ymgeisydd') i amrywio trwydded eiddo ar gyfer tafarn The George and Dragon ('yr Eiddo') i ychwanegu ardal allanol, yn cynnwys bar allanol yng nghefn yr eiddo, at y cynllun trwyddedu, dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, yn cael ei WRTHOD.

4. AELODAU O'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a gorffennodd am 12.35pm)

.....
Y Cadeirydd